# Less worry more study

## Education Maintenance Allowance. EMA

If you're 16-18, living in Wales and studying at a school or college, you could get financial help with an Education Maintenance Allowance, known as EMA.

Paid directly to students every two weeks, EMA can help alleviate the stress of costs to stay in education.

## What can I use EMA for?

That's simple – anything that helps you get through your studies. That could be:

- Travel to and from school or college
- Food and lunches
- Study essentials
- Everyday costs

Essentially, you can spend it on whatever helps you study. It's up to you.

## Will it affect family benefits?

No. We understand this might concern your family, but getting EMA will not affect any benefits paid to your household. This includes Child Benefit, Tax Credits, Universal Credit and Employment and Support Allowance.

EMA is separate from any other benefits, so your family's support stays the same.

## Who can get EMA?

EMA is designed to help those who need it most, so you're eligible if:

- ✔ You're 16-18 years old
- ✔ You live in Wales
- ✔ You're studying an eligible school or college course
- ✔ You meet attendance requirements
- ✔ Your household income meets the criteria

## How much can I get?

Eligible students get £40 per week to help with education costs – this is paid directly to you every two weeks.

## When can I apply?

You can apply for EMA at any time. You don't need your GCSE results before applying and you can apply even if you haven't chosen your course yet.

But our tip is to apply online as early as you can, so you get your money as soon as term starts and avoid delays.

## How do I apply?

Visit gov.wales/cymru-student-support to check your eligibility and start your application.

You'll get guidance to help you apply and information on what evidence you need for your application.

# Llai o Boeni, Mwy o Ddysgu

## Lwfans Cynhaliaeth Addysg. LCA

Os wyt ti'n 16–18 oed, yn byw yng Nghymru ac yn astudio mewn ysgol neu goleg, gallet ti gael cymorth ariannol Lwfans Cynhaliaeth Addysg, neu LCA.

Gall LCA, sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i fyfyrwyr bob pythefnos, dy helpu gyda straen y costau o aros mewn addysg.

## Ar beth ga' i ddefnyddio LCA?

Mae'r ateb yn syml - unrhyw beth fydd yn dy helpu i gwblhau dy astudiaethau. Er enghraifft:

- Teithio i ac o'r ysgol neu'r coleg
- Bwyd a chinio
- Hanfodion astudio
- Costau bob dydd

Yn y bôn, mi gei di ei wario ar beth bynnag sy'n dy helpu i astudio. Ti piau'r dewis.

## Fydd LCA yn effeithio ar fudd-daliadau'r teulu?

Na. Rydyn ni'n deall y gallai dy deulu fod yn poeni am hyn, ond fydd cael LCA ddim yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau sy'n cael eu talu i dy gartref. Mae hyn yn cynnwys y Budd-dal Plant, Credydau Treth, Credyd Cynhwysol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Mae'r LCA ar wahân i unrhyw fudd-daliadau eraill, felly bydd y cymorth mae dy deulu yn ei gael yn aros yr un fath.

## Pwy all gael LCA?

Mae'r LCA wedi'i gynllunio i helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf, felly rwyt ti'n gymwys os:

- ✔ Wyt ti'n 16-18 oed
- ✔ Yn byw yng Nghymru
- ✔ Yn astudio cwrs ysgol neu goleg cymwys
- ✔ Yn bodloni'r gofynion presenoldeb
- ✔ Os ydy incwm dy gartref yn bodloni'r meini prawf

## Faint allwn i ei gael?

Mae myfyrwyr cymwys yn cael £40 yr wythnos i helpu gyda chostau addysg – sy'n cael ei dalu'n uniongyrchol i ti bob pythefnos.

## Pryd alla i wneud cais?

Galli di wneud cais am LCA unrhyw bryd. Does dim angen dy ganlyniadau TGAU arnat ti cyn gwneud cais a galli di wneud cais hyd yn oed os nad wyt ti wedi dewis dy gwrs eto.

Ond gair i gall – mae'n werth i ti wneud cais ar-lein cyn gynted ag y galli di, fel dy fod ti'n cael dy arian cyn gynted ag y bydd y tymor yn dechrau, gan osgoi unrhyw oedi.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Cer i llyw.cymru/cymorth-myfyrwyr-cymru i wirio a wyt ti'n gymwys a gwna gais.

Byddi di'n cael canllawiau i dy helpu i wneud cais a gwybodaeth am ba dystiolaeth fydd ei hangen ar gyfer dy gais.